# Cerdded ym
# MHARC FICTORIA

Victoria Park Road, Tregatwg, CF63 2JS

*Cyfeillion Parc Victoria*

- Safle bws 100m o'r parc
- Gorsaf drenau 150m o'r parc (i fyny'r rhiw o'r orsaf drenau - Tregatwg)
- Parcio stryd ar Victoria Park Road heb gyfyngiadau i geir, ac eithrio ger Ysgol Gynradd Tregatwg.

## Cyfleusterau

- Mynediad i'r anabl
- Toiledau hygyrch
- Ffynnon ddŵr 3 haen
- Man chwarae helaeth
- Iard aml-chwaraeon
- Swyddfa'r parciau ac ystafell gymunedol
- Seddi
- Cysgod
- Lawnt fowlio
- Yn addas i'r teulu
- Yn croesawu cŵn

Green Flag Award®
Gwobr Y Faner Werdd







Parc Fictoria yw parc cyntaf y Barri i ennill gwobr fawreddog y Faner Werdd. Mae'n barc hanesyddol clasurol sy'n swatio yn Nhregatwg ar ochr ddwyreiniol y Barri.





Mae 6 mynedfa i'r parc. Mae 4 ohonynt yn wastad neu'n hygyrch drwy ramp ac yn addas i gadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio. Mae grisiau i'r 2 fynedfa arall, gyda chanllawiau cadarn.

Mae arwydd i'r parc o Ffordd Caerdydd ac o ben uchaf Church Hill/Barry Road (edrychwch am yr arwyddion brown).



Siâp diemwnt sydd i'r parc yn fras ac mae'n wynebu tua'r de. Mae ei fan uchaf ger y brif fynedfa gerllaw Sea View Terrace.








Mae'r mynedfeydd ger Sea View Terrace yn cynnwys un ar y gornel gyferbyn ag Ysgol Gynradd Tregatwg sy'n arwain at yr ardal chwarae i blant.

Drwy gerdded ymlaen i lawr Sea View Terrace ac i ffwrdd o'r ysgol, fe welwch 2 fynedfa arall sy'n gwbl hygyrch. Ar hyd Victoria Park Road mae 3 mynedfa arall sydd â grisiau a chanllawiau. Yn amgylchynu'r parc mae ffens â rheiliau addurnol gyda phileri cerrig bob hyn a hyn sy'n adlewyrchu'r dyluniad gwreiddiol.

Os ewch i mewn drwy'r brif fynedfa ar ben uchaf y parc ar Sea View Terrace, fe welwch lawer o welyau blodau hardd, hen goed a ffynnon ddŵr tair haen. Mae gwelyau blodau cymysg wedi'u gosod ger pob prif fynedfa.

Pan fyddwch yn y parc, wrth edrych i'r dde fe welwch chi'r Lawnt Fowlio, sy'n gartref i Glwb Bowlio Tregatwg ac yng nghanol y parc fe welwch chi'r Bandstand Fictoraidd.



Mae'r holl lwybrau y tu fewn i'r parc yn llydan a gwastad, er eu bod yn arwain ychydig i lawr rhiw os ydych chi'n cerdded o'r brif fynedfa ar Sea View Terrace. Mae llwybr yn arwain yr holl ffordd o amgylch y parc a gallwch ei ddilyn o unrhyw gyfeiriad o'ch dewis. Gallwch ddilyn llwybrau drwy ganol y parc hefyd ac o amgylch y bandstand. Maen nhw'n werth eu gweld.

Mae man gwyrdd agored ar ochr chwith y parc wrth edrych tua'r môr sy'n berffaith ar gyfer picnic ar y glaswellt neu gallwch gymryd hoe ar un o'r meinciau niferus o amgylch y parc. Ar hyd rhan waelod y parc gallwch grwydro'r llwybr hyfryd hwn yng nghanol coed, fydd yn eich arwain at y lawnt fowlio.





Fe welwch welyau blodau cymysg ger pob prif fynedfa. Mae gwely blodau cymysg hir yn rhedeg ar hyd y ffin ogleddol.



Mae llawer o welyau blodau wedi'u trefnu o amgylch ardal y lawnt fowlio, swyddfa a bandstand.



Gerllaw'r ffin ogleddol mae dau wely crwn ar gyfer arddangosfeydd blodau ffurfiol. Mae'r banciau serth yng nghornel dde-orllewinol y parc, a'r ardal o amgylch yr iard chwaraeon wedi cael eu rheoli fel ardaloedd blodau gwyllt ers diwedd 2009.



Dyma'r olygfa o'r brif fynedfa ar Victoria Park Road. Mae'r llwybr yn arwain at y Bandstand sydd yng nghanol y parc.




Mae blychau adar wedi'u gosod mewn sawl lleoliad yn y parc ac mae 60–70% ohonynt yn cael eu defnyddio fel safleoedd nythu gan rywogaethau cynhenid - Titwod Tomos Las a Thitwod Penddu yn bennaf, i'r rhai sydd â diddordeb mewn bywyd gwyllt.

Mae digon i'w weld a'i wneud ym Mharc Fictoria, p'un a ydych chi'n galw heibio am dro ysgafn neu'n dod â'r wyrion i chwarae yn y parc, defnyddio'r iard aml-chwaraeon neu ag awydd picnic ar y glaswellt, mae'n bendant yn werth ymweld ag e.

BRO MORGANNWG

# TAITH GERDDED O AMGYLCH PARC FICTORIA



Green Flag Award®
Gwobr Y Faner Werdd

*Teithiau cerdded dymunol o amgylch parciau'r Barri. Yn addas at bob oed a gallu.*

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG